

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 11eg Fehefin 2018

Presennol - Gareth Wynne Chairman, Gwawr Jones, Marion Bettenev, Siân Godbert, Jane Charlton, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau – Nick Corney, Cyng Elisabeth Roberts

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y 14eg Fai 2018

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu

Croesawyd SCHG Daisy Deveraux i'r cyfarfod, ac amlinellodd ar faterion yn gyffredinol. Nid oedd unrhyw fater yn creu pryder yn y gymuned ar hyn o bryd.

[1.1] Ffordd yn Arwain i fyny heibio Moduron Betws/Arwydd fod y Ffordd yn Anaddas i loriau
Dyweddodd y clerc nad oedd y wybodaeth pellach wedi ei dderbyn oddiwrth Cyngor BS Conwy

[1.2] Materion Traffig Pont-y-Pair/Ffordd Coed Cynhelir

Cyfeiriodd y clerc at gais gan Cyngor BS Conwy am gyfraniad tuag at gamera cylch agos newydd ar gyfer y bont. Y clerc i geisio mwy o wybodaeth ynglyn a monitro ac ymateb ayb.

[1.3] Siop Sglodion

Nodwyd yn siomedig nad oedd y rhewgelloedd a oedd wedi ei gadael o tisa'r bont wedi cael eu casglu. Y clerc i anfon llythyr at y perchennog.

Y brif Agenda

[1.4] Materion Cynllunio

Adeiladu wal gynnal fechan a newidiadau i falconi a grisiau ayb. Dola, Dolydd Terrace, Pentre Du.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[1.5] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddsbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Mai 2018

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Mai 2018.

[1.6] Tal Mynediad i'r Rhaeadr Ewynnol

Yn dilyn cyfarfod yn ddiweddar gyda'r Foneddiges Willoughby ynghyd a rheolwr yr Ystâd Mr Anthony Hall, esboniodd y clerc eu bod yn argymhell codi'r pris mynediad i £2.00 i oedolion a £1.00 i blant o dan oedran pedwar ar ddeg.

Penderfynwyd i gymeradwyo'r pris ar gyfer oedolion ond i adael pris mynediad i blant yn £0.75

[1.7] Carthion yn Rhedeg i'r Afon Llugwy

Cyfeiriodd y clerc at lythyr oddiwrth Ms K A Jones bod carthion yn rhedeg i'r afon Llugwy dydd Sul yr 2ail Fai. Gan nodi bod y broblem yn amlwg ers peth amser, y clerc i geisio cynrychiolaeth o Dwr Cymru yn y cyfarfod nesaf.

[1.8] Gwrych/ Allt Ffordd I Coedcynhelir

Y clerc i anfon gair bod angen torri'r gwrych er mwyn gwella'r gwelediad i yrwyr moduron.

[1.9] Eisteddfod Genedlaethol Cymru/Llanrwst 2019

Nodwyd bod Ystâd Gwydr wedi cyfrannu'n hael tuag at yr ŵyl a hefyd Cymdeithas Twristiaeth Betws-y-Coed. Eglurodd Gwawr Jones bod llythyr wedi ei anfon i pob preswyl o fewn y gymuned yn ceisio cyfraniad a bod y gronfa ar hyn o bryd yn fyr iawn o'r targed

Cadeirydd_____